# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 3 Tachwedd 2021

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.25am; 11.35am –12.35pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd M Williams.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd Dr M Havard a'r Cynghorydd P Harries bod ganddynt fuddiant personol yn adroddiad 43/21 Codi Arian Allanol.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15$^{fed}$ o Fedi 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15$^{fed}$ o Fedi 2021.

**4. Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dywedodd y Cadeirydd ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu nifer o gyfarfodydd/digwyddiadau hyfforddi: Hyfforddiant ar Safonau ar y 1$^{af}$ o Hydref; Fforwm Mynediad Lleol ar yr 8$^{fed}$ o Hydref; Seminar ar Dirweddau Cymru ar y 19$^{eg}$ o Hydref; cynnal Adolygiad o Berfformiad y Prif Weithredwr ar yr 21$^{ain}$ o Hydref; cyfarfod ar faes gwaith Archwilio Cymru ar yr 22$^{ain}$ o Hydref; amrywiol gyfarfodydd i drafod prosiectau arfaethedig ar raddfa fawr yn y Parc Cenedlaethol; Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Cymru; a lansio'r cynllun Sero Net Cymru. Roedd hefyd wedi ymweld â Martin's Haven gyda'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig; mynychu digwyddiad i ddathlu Pen-blwydd PC Eryri yn 70 oed yn Aberdyfi; a phlannu llwyfen goffa yn Oriel y Parc. Roedd y Cadeirydd, fel Cadeirydd Parciau Cenedlaethol Cymru, hefyd wedi

ysgrifennu at y Gweinidog, Julie James, yn tynnu sylw at waith y Parciau Cenedlaethol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cyn uwchgynhadledd COP26. Aeth ymlaen i longyfarch y Tîm Cyfathrebu am dderbyn gwobr aur yng ngwobrau Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru 'PRide' yn ddiweddar am gyhoeddiad Coast to Coast yr Awdurdod, a thynnodd sylw at y diolch a'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan yr Awdurdod am waith y tîm Parcmyn gyda'r gwasanaeth Diwrnodau Allan i'r Teulu a Ffrindiau Sir Benfro, a hefyd i'r rhai fu'n gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym meysydd parcio yr Awdurdod. Yn olaf, ond nid y lleiaf, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cwblhau ei daith gerdded ar hyd llwybr yr arfordir a ohiriwyd o 2020, a dywedodd bod y daith wedi bod yn brofiad ysbrydoledig a dyrchafol iddo. Diolchodd i'r holl staff ac Aelodau oedd wedi ei gefnogi drwy gyd-gerdded ag ef ar wahanol ddiwrnodau.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Medi 2021 ac ar 4 Hydref 2021;
(ii) Y Pwyllgor Personnel a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021;
(iii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Medi 2021;
(iv) Y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021; a'r
(iv) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021.

O ran cofnodion y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r asesiad o gais yr Awdurdod am statws Siarter Uwch yn digwydd ar yr 11eg o Dachwedd, ac y byddai'r Aelodau fu'n ran o'r cais yn cael eu gwahodd i sesiwn friffio ymlaen llaw.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am y ffin ddaearyddol ar gyfer ceisiadau i'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a hefyd am yr adborth a gynigir pan oedd ceisiadau'n aflwyddiannus. Dywedodd Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor mai un o'r meini prawf oedd y dylai prosiectau fod o fewn, neu yn gwasanaethu'r rhai sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol, ond roedd un o'r ymgeiswyr diweddar wedi rhedeg prosiect rhywle arall a bellach yn ehangu'r prosiect i ysgolion yn Sir Benfro. Sicrhawyd yr Aelodau hefyd y rhoddir adborth i bawb fu'n yn aflwyddiannus, gydag awgrymiadau am yr hyn y gellid ei wneud cyn ail-ymgeisio. Nodwyd hefyd bod y Gronfa ar agor ar hyn o bryd i geisiadau gan grwpiau cymunedol, ac fe'u hanogwyd i fanteisio ar y cyfle hwn.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7. Cyfle i Blannu Coed - Pen-blwydd Platinwm - 70 mlynedd ers y Dynodi yn Barc Cenedlaethol**

Tynnwyd sylw'r Aelodau at lythyr oddi wrth y Cynghorydd Reg Owens yn amlinellu cynnig i gynnal cynllun plannu coed i ddathlu 70 mlynedd ers dynodi'r ardal yn Barc Cenedlaethol yn 1952. Byddai'r cynllun yn cynnwys plannu 70 o goed ym mhob Cymuned yn y Parc, ac roedd y swyddogion wedi awgrymu y byddai angen i'r plannu ddigwydd yn ystod gaeaf 21/22, 22/23 a 23/24 am resymau ymarferol. Nodwyd y byddai angen ceisio am gymorth ariannol, a chlustnodwyd rhai ffynonellau posibl yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cynghorydd Owens i'r Prif Weithredwr am roi ei awgrym gerbron yr Aelodau, a dywedodd bod y cynllun yn amserol dros ben, o ystyried y trafodaethau yr wythnos honno yn yr Uwchgynhadledd COP26, ac y byddai'n dangos i Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chynhesu byd-eang.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Parcmyn bod y tîm yn falch o gefnogi awgrym y Cynghorydd Owens, a'i bod o'r farn y byddai cymunedau yn croesawu'r cynllun gyda breichiau agored. Eglurodd bod yr adroddiad wedi awgrymu plannu coed chwip gan mai'r coed hyn oedd â'r siawns orau o oroesi a ffynnu, ond roedd yn cydnabod ei bod yn bwysig bod yn hyblyg a sicrhau bod y goeden iawn yn cael ei dewis ar gyfer y lleoliadau a ddewisir, ac felly gallai coed ffrwythau neu sbesimenau o goed fod yn fwy priodol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cynghorydd Owens am ei awgrym, ac roeddent yn gefnogol i'r cynnig, fyddai'n ffordd gadarnhaol o ddathlu pen-blwydd platinwm yr Awdurdod. Y gobaith oedd y gellid gwneud y gwaith mewn cydweithrediad â'r Parcmyn Ieuenctid, grwpiau gwirfoddol a chynlluniau eraill o blannu coed yn y sir, gan gynnwys y rhaglen Canopi Gwyrdd y Frenhines, ac awgrymwyd y gallai ysgolion gymryd rhan mewn casglu mes a phlannu'r eginblanhigion unwaith y byddai'r mes wedi egino. Holwyd a ellid plannu'r coed ar dir preifat, gan nad oedd gan bob cymuned leoedd cyhoeddus y gellid eu defnyddio i'r perwyl hwn. Atebodd y Swyddog Bioamrywiaeth bod gan yr Awdurdod brofiad o gefnogi gwaith ar dir preifat er budd y cyhoedd drwy'r cynllun Gwarchod y Parc, a chytunodd y byddai hyn yn drywydd da i'w archwilio. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r Parcmyn yn gweithio gyda chymunedau i gyflawni tasgau cynnal a chadw /ôl-ofal i sicrhau bod y prosiect yn llwyddo i'r eithaf.

**Penderfynwyd yn unfrydol** i gytuno ar y cynllun plannu coed arfaethedig fel y nodwyd yn yr adroddiad.

8. **Adroddiad ar Godi Arian Allanol**
Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r gweithgareddau codi arian yn erbyn Strategaeth Codi Arian yr Awdurdod 2018-2021, a hefyd yn nodi Strategaeth ddrafft 2021-2024 i'r Aelodau ei chymeradwyo.

Roedd y Strategaeth yn argymell y dylai'r prif ffocws ar gyfer codi arian o hyn ymlaen barhau i fod yn gynlluniau cyllido grant statudol (y trysorlys). Fodd bynnag, barnwyd bod cynnal y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r cynllun presennol o Noddi Iet hefyd yn elfennau allweddol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith diwyd yn sicrhau cyllid allanol, ac roeddent yn gefnogol i'r strategaeth ar gyfer y dyfodol. Roeddent yn falch o lwyddiant y cynllun Noddi Iet, ac awgrymwyd y gellid ehangu hyn i gynnwys eitemau eraill o ddodrefn ar lwybr yr arfordir, megis pontydd neu hyd yn oed bwyntiau gwefru ceir trydan; canmolwyd natur gynnil y placiau.   ar gyfer y dyfodol

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch pa mor addas fydd defnyddio'r gronfa ddata ThankQ o hyn ymlaen a phwysigrwydd rheoli'r cysylltiadau â rhoddwyr yn gyffredinol, yn enwedig rhoddwyr mewn ewyllys. Atebodd y Rheolwr Codi Arian bod trwyddedu'r gronfa ddata ar hyn o bryd yn cael ei adnewyddu yn flynyddol a bod asesu i weld a oedd y gronfa yn parhau i fod yn addas at y diben yn parhau. Roedd adeiladu a meithrin cysylltiadau â rhoddwyr yn flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth ac roedd defnyddio'r gronfa ddata ThankQ yn allweddol i hynny gan ei bod galluogi cofnodi dewis y cyswllt o ran cyfathrebu.

Roedd y cwestiynau eraill yn ymwneud â'r darlun ehangach o gyllido, a dywedodd y Prif Weithredwr bod asesiad o gyfraniad y gwahanol ffynonellau cyllid a dderbynnir gan yr Awdurdod yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn y Gweithdy blynyddol ar y Gyllideb a gynhelir bob mis Rhagfyr. Byddai adroddiad ar waith y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol o ran codi arian ar draws teulu'r Parciau Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod fis Rhagfyr.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Strategaeth APCAP ar Godi Arian yn 2021-2024.

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.25 a 11.35am]*

9. **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Personél**
Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod a gynhaliwyd fis Medi 2020 wedi cymeradwyo polisi oedd â'r nod o symleiddio'r broses o ddatblygu a dirprwyo polisïau Adnoddau Dynol (AD) yr Awdurdod, a hefyd

gofynnwyd i'r Rheolwr Adnoddau Dynol adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Personél yng ngoleuni'r newidiadau dirprwyo.

Ar ôl i’r Pwyllgor Personél ystyried y cylch gorchwyl sawl gwaith, cyflwynwyd Cylch Gorchwyl diwygiedig i'r Awdurdod i’w gymeradwyo. Roedd y Pwyllgor wedi’i ailenwi yn Bwyllgor Adnoddau Dynol i amlygu sefyllfa AD yn yr Awdurdod ar hyn o bryd. Ymddiheurodd y swyddog hefyd am nifer o wallau argraffyddol a gramadegol oedd yn y ddogfen gan dynnu sylw at y gwall y dylai'r “Dirprwyo i’r Tîm Arweinyddiaeth” fod wedi darllen “Dirprwyo i'r Prif Weithredwr”.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a ail-enwyd yn Bwyllgor Adnoddau Dynol yn amodol ar y mân newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.

*[Gadawodd y Cynghorydd R Owens y cyfarfod adeg ystyried yr eitem ganlynol.]*

**10. Polisi Gweithio Gartref**

Dywedwyd bod y Cynrychiolwyr Staff yng nghyfarfod y Fforwm Gweithwyr fis Mawrth 2021 wedi gofyn i'r aelodau am eu barn ar 'ddyfodol patrwm gweithio yn yr unfed ganrif ar hugain' yng ngoleuni’r modd yr oedd gweithleoedd yn ymateb i'r agenda Cydbwysedd Bywyd a Gwaith a’r hyn a ddysgwyd o fesurau'r Llywodraeth i annog gweithio gartref yn ystod y pandemig Covid-19.

Cafodd Rheolwr Adnoddau Dynol yr Awdurdod y dasg o ymgynghori â’r staff a’r rheolwyr ar draws yr Awdurdod gyda golwg ar adolygu a diwygio'r Polisi Gweithio Hyblyg presennol, ac yn dilyn ymgynghori eang, mabwysiadwyd Polisi Gweithio Hyblyg diwygiedig yng Nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ar 14 Medi 2021. Fodd bynnag, yng ngoleuni cymhlethdodau Gweithio Gartref (oedd ond yn un o nifer o ymagweddau at weithio hyblyg), cytunwyd bod angen Polisi Gweithio Gartref annibynnol ar ei ben ei hun.

Yn unol â phrotocolau’r Awdurdod ar ddirprwyo, gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau ar y polisi Gweithio Gartref newydd a'i gymeradwyo yn y pen draw cyn i hyn hefyd gael ei fabwysiadu yn ymarferol.

Roedd rhai Aelodau o’r farn y gallai tôn y polisi fod yn fwy cadarnhaol, gan fod y profiad o weithio gartref dros y 18 mis diwethaf wedi profi bod hynny’n bosibl i'r mwyafrif o swyddi. Eglurodd y Rheolwr AD bod y polisi wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng awydd y staff i weithio gartref, a rolau rhai staff, megis y rhai sy'n gweithio yng Nghanolfannau’r Awdurdod a’r Wardeniaid nad oedd gweithio gartref yn bosibl iddynt. Dywedodd ei fod wedi derbyn sylwadau eraill cyn y cyfarfod, ac awgrymodd ei fod yn

ail-eirio'r polisi a'i ddwyn yn ôl i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w fabwysiadu.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod yr amrywiaeth yn y rolau ar draws yr Awdurdod a'r ymddiriedaeth oedd ei hangen i ganiatáu i'r amrywiol rolau gael eu cyflawni'n effeithiol, gyda rheoli perfformiad yn elfen sylfaenol o'r fframwaith rheoli. Canmolwyd staff am addasu i'r angen i weithio gartref oherwydd y Pandemig, ond roedd rhai Aelodau yn poeni, yn yr un modd ag Awdurdodau cyhoeddus eraill, nad oedd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd cystal â phan oedd y staff yn gweithio yn y swyddfa gan nad oedd mor hawdd siarad â swyddogion wyneb yn wyneb. Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud ei fod yn cytuno bod angen i swyddogion fod yn hygyrch wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, ond roedd profiad y 18 mis blaenorol wedi dangos bod hyn yn bosibl waeth ble oedd y staff wedi'u lleoli; mewn rhai achosion roedd y systemau a roddwyd yn eu lle i ganiatáu mynediad o bell wedi bod yn fwy cyfleus.

**Penderfynwyd** gohirio ystyried y Polisi Gweithio Gartref tan y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod i ganiatáu ymgorffori'r pwyntiau a wnaed yn y cyfarfod ac ar e-bost cyn y cyfarfod.

**11. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022/23**

Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd pennu'r cyflogau a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru. Roedd Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2022/23 wedi'i gyhoeddi, a nodwyd y prif argymhellion oedd yn berthnasol i'r Awdurdod hwn. Byddai'r newidiadau yn cael eu gweithredu ar y 1 o Ebrill 2022.

Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch ai cyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft y Panel neu beidio, ac os cyflwyno ymateb, beth ddylai cynnwys yr ymateb fod. Dywedodd y Swyddog Monitro, o ystyried bod yr adroddiad yn gofyn am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid cyflwyno ymateb i'r Panel, ei bod yn annhebygol y byddai gan unrhyw un fuddiant personol neu ragfarnllyd.

Yn y cyfarfod, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd a'r Dirprwy Swyddog Monitro mai'r argymhelliad oedd y byddai'r cyflog sylfaenol yn codi £685, gan ychwanegu er y cynigir y dylid codi Cyflogau Uwch Swyddogion yn gymesur â'r cyflog sylfaenol, bod anghysondeb o £1 a achosir drwy dalgrynnu'r symiau.

Cynigiwyd derbyn yr adroddiad ac na ddylid ymateb i'r Panel, ond ni eiliwyd hyn. Awgrymodd Aelod arall y dylai'r Awdurdod ymateb i ddiolch i'r

Panel am eu gwaith a nodi pa mor bwysig yw annog amrywiaeth eang o bobl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, gan gydnabod y byddai'r argymhellion yn ategu hynny drwy'r lefelau tâl a'r cyfraniadau at gostau a wynebir. Eiliwyd y cynnig hwn.

**Penderfynwyd** bod ymateb yn cael ei anfon at y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn diolch iddynt am eu gwaith ac yn cydnabod pwysigrwydd tâl digonol i ganiatáu amrywiaeth eang o bobl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

**12. Adnewyddu Yswiriant 2022/23**

Atgoffwyd yr Aelodau bod pob agwedd ar yswiriant yr Awdurdod yn cael ei reoli gan ei froceriaid Marsh UK, oedd hefyd yn gweithredu ar ran y mwyafrif helaeth o Awdurdodau Lleol Cymru. Wrth drefnu yswiriant ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015/16 i 2017/18, ac ar ôl blynyddoedd lawer o geisio cysoni dyddiadau y daw'r polisïau i ben, roedd y tri Parc yng Nghymru wedi gallu mynd allan i'r farchnad yswiriant a chynnal ymarfer tendro ar y cyd. Roedd yr ymarfer hwn wedi arwain at arbedion sylweddol yng nghyfanswm y premiymau i'r tri Parc.

O dan amodau marchnad yswiriant mwy ffafriol byddai'r tri Awdurdod fel arfer yn mynd allan ar ymarfer tendro newydd ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2024/25. Fodd bynnag, oherwydd yr amgylchiadau anffafriol bod y farchnad yn gwthio premiymau i fyny, y cyngor gan Marsh UK oedd i ddal gafael ar y polisïau presennol a'u hymestyn am ddwy flynedd arall. Nodwyd bod yr Awdurdod, yn y gorffennol, o dan amodau andwyol y farchnad, wedi mabwysiadu safbwynt tebyg o ymestyn polisïau.

Ar ôl dwys ystyried, roedd y ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru wedi cytuno i'r trefniant hwn, a gofynnwyd i'r Awdurdod yn awr i gymeradwyo'r strategaeth hon.

Cytunodd yr Aelodau bod hyn yn ymagwedd synhwyrol ac roeddent yn falch bod y tri Awdurdod yn parhau i weithio mewn partneriaeth.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r estyniad i drefniant yswiriant cyfredol yr Awdurdod ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2022/23 a 23/24.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 |